**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Graham AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

22 Ionawr 2016

Annwyl William

Disgwylir i swyddogaethau masnachfraint rheilffyrdd gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2017. Cyn hynny mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn datblygu manyleb ar gyfer masnachfraint newydd.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r ymgysylltiad hwn â'r cyhoedd, heddiw rwyf wedi lansio ymgynghoriad sy'n gwahodd pobl i roi eu barn ar y canlyniadau ansawdd allweddol y mae angen eu cynnwys ym manyleb masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau, gan gynnwys:

- Canlyniadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella
- Gwasanaethau i'w darparu a'u capasiti
- Perfformiad a delio â phroblemau
- Prisiau a thocynnau
- Cerbydau

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf o raglen ymgysylltu â'r cyhoedd a'r diwydiant. Bydd adroddiad yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegir yn y cam hwn o'r ymarfer ymgysylltu'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar ôl i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael eu cynnal ym mis Mai.

Bydd y safbwyntiau a gesglir yn yr ymarfer hwn yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu'r cynigion manwl a'r fanyleb ar gyfer dyfarnu Masnachfraint newydd Cymru a'r Gororau. Bydd y fasnachfraint yn destun ymgynghoriad cyhoeddus pellach a fydd yn para am o leiaf 12 wythnos.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.edwina.Hart@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Mae Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Bennu Cyfeiriad Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ar gael yn y ddolen ganlynol:

http://gov.wales/docs/det/consultation/160122-wales-border-rail-franchise-consultation-document-cy.pdf (37 tudalen)